Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Wales Rural Network



# Goblygiadau ymarferol ac economaidd tyfu asbaragws yn organig

Arloesedd

## TYFU ASBARAGWS I LENWI'R BWLCH NEWYNOG

Mae gan asbaragws lawer o botensial yng Nghymru oherwydd ei fod yn gynnyrch gwerth uchel sy'n gwerthu'n dda wrth gât y fferm. Mae hefyd yn un o'r ychydig gnydau y gellir ei gynaeafu i'w fwyta yn ystod 'cyfnod y bwlch newynog' o ddiwedd mis Ebrill i fis Mehefin pan nad oes llawer o gnydau eraill ar gael yn y DU.

Gan ei fod yn llysieuyn lluosflwydd, ar ôl ei sefydlu gall gynhyrchu am wyth mlynedd neu fwy. Mae asbaragws fel arfer yn cael ei blannu fel planhigion cwsg blwydd oed a elwir yn goronau gyda phlanhigion newydd yn cymryd dwy flynedd i sefydlu cyn y gallwch ddechrau cynaeafu.

Er bod galw mawr am asbaragws, gall ffermwyr ar raddfa fach ofni'r cnwd oherwydd ei gostau sefydlu drud a'r aros hir am y cynhaeaf cyntaf. Ond mae'r cnwd yn elwa o werth uchel, ffresni, milltiroedd bwyd isel a marchnadoedd cadwyn gyflenwi byr nad yw archfarchnadoedd yn gallu cystadlu â nhw yn gyffredinol.

Ar y cyfan, prin iawn yw'r data sydd wedi cael ei gyhoeddi gan y diwydiant ar dyfu asbaragws organig neu gonfensiynol, felly roedd angen mwy o wybodaeth a data i gynyddu gwybodaeth am ffermio asbaragws yma yng Nghymru.

Yn ffodus, llwyddodd ADAS, sef cwmni ymgynghori amaethyddol ac amgylcheddol annibynnol, i sicrhau cyllid gan y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol (EIP Cymru) i edrych ar oblygiadau ymarferol ac economaidd tyfu asbaragws organig ar raddfa fach yng Nghymru.

Gan weithio gyda dwy fferm organig yn Sir Fynwy, roedd Chris Creed o dîm Garddwriaeth ADAS yn gallu monitro allbynnau a meincnodi asbaragws organig o'i sefydlu hyd at y prif gynhaeaf cyntaf. Byddai asesu hyfywedd asbaragws organig drwy ddarparu dealltwriaeth drylwyr o ofynion ymarferol ac ariannol tyfu'r cnwd yn cynorthwyo'r sector ehangach a thyfwyr asbaragws yng Nghymru yn y dyfodol.

## MANTEISION Y CYLLID

Yn 2018 sicrhawyd gwerth £40,000 o gyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Caniataodd y cyllid hwn i EIP Cymru, dan arweiniad Menter a Busnes, gynnal prosiect ymchwil tair blynedd a oedd yn cynnwys plannu gwahanol fathau o goronau asbaragws ar ddwy fferm organig yn Sir Fynwy.




Archebwyd cyfanswm o 40,000 o goronau ar gyfer y ddau safle, a oedd â chyfanswm o ychydig yn llai nag un hectar ar bob safle, 22,000 coron yr hectar neu 2.2 coron/$m^2$.

Ym mlwyddyn un yn dilyn plannu ym mis Ebrill, cafodd y cnwd oedd yn dod i'r amlwg ei fonitro o ran ymddangosiad canrannol, niferoedd rhedyn ac uchder. Cloddiwyd sampl o'r asbaragws er mwyn cyfrif clystyrau blagur i gael syniad o'r cnwd posibl. Gan symud ymlaen i flwyddyn dau, oherwydd sefydlu llwyddiannus gwnaed toriad tocio ysgafn. Eto, fel gyda blwyddyn un, cyfrifwyd sampl o glystyrau blagur i roi syniad o'r cnwd posibl.

Ym mlwyddyn tri, cymerwyd cnydau ysgafn er mwyn gallu cymryd y cnwd o dair gradd (enfawr, canolig a bach). Parhawyd i gasglu data parhaus ar achosion o chwyn a phlâu, perfformiad a chost rheoli'r cnwd, i gyfrifo'r meincnod ariannol.

Yn y flwyddyn olaf cynaeafwyd y cnwd yn dilyn ymddangosiad cnwd ddiwedd mis Ebrill hyd at 21 Mehefin, sef safon y diwydiant ar gyfer atal y cynhaeaf er mwyn caniatáu i'r coronau adfywio. Dangosodd y ddwy fferm elw da ar fuddsoddiad.



## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Gyda chyllid EIP Cymru roedd ADAS yn gallu cynorthwyo ffermwyr yn ymarferol ar lawr gwlad, gan weithio'n agos gyda nhw a rhoi cyngor ar sut i dyfu asbaragws organig yn llwyddiannus. Gyda digonedd o asbaragws roedd y ffermydd yn gallu cyflenwi cwsmeriaid lleol ac mae'r data a gasglwyd bellach ar gael i helpu ffermwyr ledled Cymru i ddysgu mwy am dyfu'r llysieuyn gwanwyn dymunol hwn.

"Roedd y cyllid a sicrhawyd gan EIP Cymru yn hollbwysig yn yr ymchwil sydd ei angen i edrych ar hyfywedd cnydau asbaragws organig yn ne Cymru. Roeddem ni'n gallu monitro allbynnau a meincnodi asbaragws organig sy'n tyfu o'i sefydlu hyd at y cynhaeaf cyntaf. Gwnaeth asesu hyfywedd asbaragws organig ein galluogi i gael dealltwriaeth drylwyr o ofynion ymarferol ac ariannol tyfu'r cnwd gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r sector ehangach.

"Mae asbaragws yn gnwd sydd â photensial mawr yng Nghymru, ac mae galw mawr amdano. Mae'n gynnyrch blasus iawn ac yn hawdd i'w goginio. Mae ganddo botensial enfawr mewn lleoedd fel Square Farm yn Sir Fynwy sydd â chadwyn gyflenwi uniongyrchol i'w gwsmeriaid trwy ei siop fferm ei hun.

"Efallai y bydd llawer o gynhyrchwyr bach yn meddwl ddwywaith am fod eisiau tyfu'r cnwd hwn, ond gyda'n cymorth ni a'r wybodaeth a gasglwyd gallwn eu helpu i wneud penderfyniadau ymarferol am eu prosiectau asbaragws. Ers dechrau'r prosiect hwn rydym ni wedi cael nifer o ffermwyr eraill o bob rhan o Gymru yn cysylltu â ni i ddysgu mwy am y cnwd."

Will John, ymgynghorydd amgylchedd, bwyd a ffermio, ADAS